

## Gweithgaredd Cynilo

**Darllenwch y Daflen Ffeithiau FB9 - Cynilo, a Thaflen Ffeithiau FB10 - Gair o Gyngor ynghylch Cynilo, yna cwblhewch y canlynol:**

Yr hyn sy'n bwysig wrth gynilo arian yw gosod pethau yn ôl trefn eu pwysigrwydd - edrych ar yr hyn sydd ei angen arnoch neu'r hyn sy'n bwysig, a'r hyn y gallech wneud hebdo.

### Gweithgaredd 1

Myfyriwr yw Nilam sydd newydd symud o'i chartref ac sydd bellach yn rhannu fflat ar rent gyda ffrind. Mae ei theulu yn rhoi lwfans bychan yn wythnosol iddi, ac mae ganddi waith rhan amser, ond nid yw'n ennill digon o arian i dalu am yr holl gostau. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys:

<b>Bwyd</b>	<b>Teledu</b>	<b>Bil Ffôn</b>	<b>Gwyliau</b>
<b>Sinema</b>	<b>Ffioedd coleg</b>	<b>Costau y car a phetrol</b>	<b>Rhent</b>
<b>Bil trydan</b>	<b>Siop trin gwallt</b>	<b>Pryd allan</b>	<b>Dillad</b>
<b>Bar ewinedd</b>	<b>Yswiriant cartref</b>	<b>Cynilion</b>	<b>Llyfrau coleg</b>
<b>Noson allan yn y clwb nos</b>	<b>Anrhegion ar gyfer y teulu</b>	<b>Chwaraewr CD a cherddoriaeth</b>	

Mae Nilam am arbed arian. Trafodwch pob un o'r costau a gosodwch nhw yn ôl trefn eu pwysigrwydd. Pa bethau allai Nilam wneud hebddynt?

### Gweithgaredd 2

Meddylwch am y pethau ydych chi neu eich teulu wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf. O dan bob un o'r penawdau canlynol, disgrifiwch beth fuoch chi'n ei wneud a beth wnaethoch chi wario: **dillad, adloniant, trafnidiaeth a bwyd.**

Beth allech chi fod wedi'i wneud yn wahanol i arbed arian?

### Gweithgaredd 3

**Lluniwch gynllun cynilo personol ar gyfer yr wythnos neu'r mis nesaf.**

- Ysgrifennwch yr holl ffyrdd fyddwch chi'n rhoi cynnig arny'n nhw i ennill ac arbed arian, neu dorri lawr ar y gwario. Yna lluniwch gyllideb i ddangos beth ydych yn fwriadu ei ennill neu ei wario yn ystod y cyfnod hwn. Fe allech ddefnyddio Taflen Waith WB5 - Manylion am y Gyllideb.
- Cadwch gofnod gofalus o'r hyn ydych wedi'i wario a'i ennill trwy gydol y mis. Cadwch filiau siopa a dogfennau ariannol eraill a fydd yn help i chi gofio faint ydych wedi'i wario.
- Ar y diwedd, cymharwch gynllun eich cyllideb gyda'r hyn ydych wedi'i wir ennill, a'i wario.
- Sut allech chi addasu eich cyllideb pe bai angen i chi gynilo mwy o arian?

Gofynnwch i'ch rhieni eich helpu gyda'r gweithgareddau hyn